

## Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

### EGLWYS DEWI SANT

www.eglwysdewisant.org.uk

### CROESO i Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd

10 Ionawr 2021

*Ystwyll I – Bedydd Crist*

### CYHOEDDIADAU'R SUL

#### GWASANAETHAU HEDDIW

Cynhelir gwasanaeth o'r Hwyrdd Weddi yn yr Eglwys heno am 6.00pm. Darlledir y ddau bodlediad fel arfer.

#### NOSON DROS ZOOM

Trefnir noson gymdeithasol anffurfiol dros Zoom nos Fawrth 12 Ionawr am 7.00pm. Dewch â'ch dewis ddiod ac fe gawn gyfle i ddal lan ar ôl yr Ŵyl. Os hoffech ymuno â'r cyfarfod, dilynwch y ddolen isod: <https://us02web.zoom.us/j/86876098377?pwd=VGYrL2hoVzdXWm1zSmlKajc1VkJkdz09>

**Rhif Adnabod y Cyfarfod:** 868 7609 8377

**Cyfrinair:** 244215

#### BORE COFFI A CHLONC

Cynhelir ein bore coffi rhithiol bore Sadwrn 16 Ionawr gan ddechrau am 10.30am. Am y manylion Zoom neu am ragor o wybodaeth cysylltwch â Siân Eleri Thomas. [thomasse2@hotmail.com](mailto:thomasse2@hotmail.com)

#### DIOLCH

Dymuna Barbara, David a Hywel ddiolch i chi gyd am eich negeseuon caredig, cardiau, galwadau ffôn, negeseuon e-bost, yr ymweliadau carreg drws ac am y pethau ychwanegol hefyd. Rydym yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd.

#### YMDDEOLIAD

Mae Archesgob Cymru ac Esgob Abertawe ac Aberhonddu, y Parchedigaf John Davies, wedi cyhoeddi ei fod yn ymddeol ar 2 Mai eleni ar ôl gwasanaethu fel esgob am 13 blynedd a 4 blynedd fel Archesgob.

#### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Phil ac Alison Stone ar enedigaeth wyres newydd, Aneria.

## YN YR EGLWYS:

**Dydd Sul 17 Ionawr 2021**

*Ystwyll II*

9.00 am - Y Cymun Bendigaid

#### GWASANAETHAU HEDDIW: Ystwyll I (Bedydd Crist)

Bydd linc i bodlediad y gwasanaeth boreol yn ymddangos gyda'r e-bost fydd yn cynnwys y daflen hon. Hefyd, mae modd ymweld â gwefan yr eglwys i ddod o hyd i'n gwasanaethau ar lein.

Bydd podlediad heno am 6.00pm yn wasanaeth o'r Hwyrdd Weddi.

#### YN EIN GWEDDÏAU

Cofiw'n yn ein gweddïau y cleifion: Cathrin Brynach, Pegi Davey, Enid Davies, John Hicks, Margaret Jones, Sally Lewis, Catrin Morgan, Nia Roberts, Ceri Saunders, Dawn Parry Sawdon, Gwen Thomas, Jack Thomas (Offeiriad), Joan Thomas, ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiw'n am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

#### ADDOLI AR YR AELWYD

Os oes gennych gopi o lyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y Foreol a'r Hwyrdd Weddi (glas tywyll 1984), mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaethau ynddo a'i ddarllen i chi eich hun yn dawel neu ar lafar, neu ym mha bynnag fodd sy'n gyffyrddus i chi.

Mae'r Salm a'r darlleniadau ar gyfer y Sul fel y canlyn:

#### Y Foreol Weddi:

Salm: 29

Genesis 1:1-5

Marc 1:4-11

#### Yr Hwyrdd Weddi:

Salm 46

Eseia 42:1-9

Effesiaid 2:1-10

Mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaeth ar y daflen hon hefyd.

**Trefn gwasanaeth syml ar gyfer y gwasanaeth boreol**  
**Thema: Dŵr a Dechreuadau Newydd**

**Clod i enw Iesu,  
Plygwn iddo nawr,  
“Brenin y gogoniant”  
Yw ein hanthem fawr;  
I’w gyhoeddi’n Arglwydd  
Codwn lawen lef,  
Cyn bod byd nac amser  
Gair ein Duw oedd ef.**

**Os caiff ddod i’ch calon  
Trecha ynnddi’n glir  
Bopeth sydd yn aflan  
Ac sy’n groes i’r gwir;  
Yn ei rym wynebwh  
Bob temtasiwn ddaw,  
Bydd ei adain dros och,  
Nertha chwi â’i law.**

*Caroline M Noel 1817-77*  
*Cyf. R Glyndwr Williams*  
*Caneuon Ffydd 311*

A daeth llais o’r nefoedd: “Ti yw fy Mab, yr Anwylyd;  
ynot yr wyf yn ymhyfrydu”. *Marc 1:11*

Daethom ynghyd yn deulu Duw ym mhresenoldeb ein  
Tad, i roddi iddo foliant a diolch, i glywed a derbyn ei  
air, i gyflwyno iddo anghenion yr holl fyd ac i geisio ei  
ras, fel y gallwn, trwy ei Fab Iesu Grist, ein rhoi ein  
hunain i’w wasanaeth.

Dewch at ddŵr y bywyd.  
**Bydd Mab Duw yn torri ein syched.**

Dewch at fedydd edifeirwch.  
**Bydd Mab Duw yn maddau ein pechod.**

Dewch i bresenoldeb Duw.  
**Deuwn i gyfarfod Iesu.**

Arglwydd, pan ddaethost ti i’r byd, newidiodd pethau.  
Pan ddaethom ni i berthynas â thi, newidiodd pethau.  
Llanwyd bywyd ag ymdeimlad newydd o ystyr a  
heddwch. Ond, Arglwydd, weithiau byddwn yn dy  
siomi trwy wneud rhywbeth o’i le neu fethu gwneud y  
pethau iawn.  
**Anadla, anadl lôr,**

**Llanw fy mywyd i  
Fel byddo ‘nghariad i a’ m gwaith  
Yn un â’r eiddot ti.**

Weithiau, Arglwydd, oherwydd balchder, styfnigrwydd  
neu ofn byddwn yn codi muriau ac yn cadw eraill hyd  
braich – hyd yn oed ti, Arglwydd.

**Anadla, anadl lôr,  
rho im galon bur  
a gwna f’ewyllys dan dy lawr  
yn gadarn fel y dur.**

Ar adegau byddwn yn ildio i’n gwendidau a’n  
temptasiynau, ac yn methu dibynnu ar dy nerth di.  
Weithiau cawn ein poeni gan sefyllfaoedd anodd a  
byddwn yn ei chael yn anodd ymddiried ynot ti  
**Anadla, anadl lôr,  
Meddianna fi yn lân  
Nes gloywi fy naearol fryd  
Â gwawl y dwyfo dân.**

Helpa ni i wrthdroi pethau o’r fath a throi atat ti.  
Helpa ni i ddysgu o’r gorffennol a gwneud dyfodol  
gwell trwy ddibynnu ar dy nerth a’th heddwch di.

**Anadla, anadl lôr,  
nid ofnaf angau mwy,  
caf fyw’n dragwyddol gyda thi  
uwchlaw pob loes a chlwyr’.**

*Edwin Hatch 1835-89*  
*Cyf. Alun Davies*

*Distawrwydd*

**Dduw trugarog,  
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred:  
y mae’n wir ddrwg gennym,  
yr ydym yn edifarhau ac yn troi atat ti.  
Adnewyddda ein bywydau trwy dy Ysbryd  
Ar ddelw Iesu Grist ein Gwardedwr,  
Er gogoniant dy enw sanctaidd. Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthym,  
Maddau inni a’n rhyddhau o bechod,  
A’n cadw yn y bywyd tragwyddol, trwy Iesu Grist ein  
Harglwydd. Amen.

*Molwn*

Rhowch i’r Arglwydd ogoniant a nerth.  
Rhowch i’r Arglwydd y gogoniant sy’n ddyledus i’w  
enw.  
**Addolwch yr Arglwydd mewn sancteiddrwydd.**

Y mae llais Duw'r gogoniant yn taranu.  
Y mae llais yr Arglwydd yn nerthol ac yn ogoneddus.  
**Addolwch yr Arglwydd mewn sancteiddrwydd.**

Y mae llais yr Arglwydd yn taro â fflachiadau o fellt.  
Y mae llais yr Arglwydd yn ysgwyd y ddaear.  
**Addolwch yr Arglwydd mewn sancteiddrwydd.**

Yn nheml Duw llefa'r angylion, 'Gogoniant!  
Gorseddir yr Arglwydd yn frenin am byth.  
**Addolwch yr Arglwydd mewn sancteiddrwydd.**  
**Amen.**

**Y Colect: Bedydd Crist**

Gweddïwn

Dad tragwyddol,  
a ddatguddiaist ym medydd Iesu  
ei fod yn Fab i ti,  
gan ei eneinio â'r Ysbryd Glân:  
caniatâ i ni a anwyd drachefn o ddŵr a'r Ysbryd,  
lawenhau i gael ein galw  
yn blant i ti;  
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

**Darlleniad: Genesis 1:1-5**

Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. Yr oedd y ddaear yn afluniaidd a gwag, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. A dywedodd Duw, "Bydded goleuni." A bu goleuni. Gwelodd Duw fod y goleuni yn dda; a gwahanodd Duw y goleuni oddi wrth y tywyllwch. Galwodd Duw y goleuni yn ddydd a'r tywyllwch yn nos. A bu hwyr a bu bore, y dydd cyntaf.

**Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni;**

**Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni.**

**Plyg ni, trin ni, golch ni, cod ni:**

**Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni.**

*Daniel Iverson cyf. Iddo Ef*

*Canu Clod 433*

**Darlleniad: Marc 1. 4-11**

Ymddangosodd Ioan Fedyddiwr yn yr anialwch, yn cyhoeddi bedydd edifeirwch yn foddion maddeuant pechodau. Ac yr oedd holl wlad Jwdea, a holl drigolion Jerwsalem, yn mynd allan ato, ac yn cael eu bedyddio ganddo yn afon Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau. Yr oedd Ioan wedi ei wisgo mewn dillad o flew camel a gwregys o groen am ei ganol, a locustiaid a mêl gwyllt

oedd ei fwyd. A dyma'i genadwri: "Y mae un cryfach na mi yn dod ar f'ôl i. Nid wyf fi'n deilwng i blygu a datod carrai ei sandalau ef. Â dŵr y bedyddiais i chwi, ond â'r Ysbryd Glân y bydd ef yn eich bedyddio." Yn y dyddiau hynny daeth Iesu o Nasareth Galilea, a bedyddiwyd ef yn afon Iorddonen gan Ioan. Ac yna, wrth iddo godi allan o'r dŵr, gwelodd y nefoedd yn rhwygo'n agored a'r Ysbryd fel colomen yn disgyn arno. A daeth llais o'r nefoedd: "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu."

Myfyrdod:

**Ac yna, wrth i Iesu godi allan o'r dŵr, gwelodd y nefoedd yn rhwygo'n agored a'r Ysbryd fel colomen yn disgyn arno. Marc 1:10**

'Rwyf am i ni wneud rhywbeth ychydig yn wahanol yn ystod y bregeth y bore 'ma. Yn gyntaf, rwyf am i chi, os yr ydych yn dymuno gwneud felly, fynd i nôl gwydraid neu ddisgled fach o ddŵr, dŵr cyffredin o'r tap. (Mae croeso i chi osod y podlediad ar *pause* nawr ac yna ei ailgychwyn ar ôl i chi ddod yn ôl â'ch gwydraid o ddŵr). Neu wrth gwrs, mae croeso i chi ddefnyddio eich dychymyg, cau eich llygaid, a meddwl am wydraid o ddŵr). Mae'r dewis lan i chi.

Nawr bod gennych ddŵr o'ch blaen, rwyf am i chi edrych ar y dŵr – yr hylif di-liw yma. Does dim byd yn gyffrous iawn amdano. Mae'n elfen gyffredin iawn. Yn y wlad hon rydym yn hen gyfarwydd â dŵr – boed hynny y dŵr rydym yn tynnu o'r tap, neu'r dŵr sy'n fynych yn disgyn arnom fel glaw. Yn y wlad hon, yr ydym yn hynod o ffodus, does gennym ni ddim prinder o ddŵr.

Nesaf, rwyf am i chi gymryd llwnc bach o'r dŵr sydd gennych. Eto, does dim yn gyffrous am ei flas. Mae'n hylif gweddol ddi-flas. Mae'n fwy flasus gydag ychydig o *squash* ynddo, neu os ydych yn ei ddefnyddio i wneud paned o de neu goffi. Ond eto, er mor ddi-flas yw dŵr ar ei ben ei hun, does dim yn torri syched yn well nag e. Mae tua 60% o'r corff dynol yn ddŵr, maen nhw'n dweud. Does dim synod felly bod dŵr mor bwysig a hanfodol i'n hiechyd ni.

Yn olaf, rwyf am i chi osod eich bys yn y dŵr a'i deimlo. Mae'n wlyb, efallai'n oer, efallai'n claeareu ei naws. Defnyddiwn ni ddŵr i ymolchi a glanhau. Does dim byd yn well i ymolchi na dŵr a sebon. Er ein bod bellach yn hen gyfarwydd â defnyddio hylif ddiheintio dwylo, eto cawn ein hannog yn yr un modd i olchi ein dwylo mewn dŵr a sebon yn aml. Does dim sy'n glanhau yn well na dŵr a does dim sy'n adfywio'r corff yn well na chael cawod, bath, neu fynd i nofio. Mae'n rhyfedd mor dda yw dŵr i olchi dwst a baw y dydd o'r

corff, ac i wneud i ni deimlo'n well, deimlo fel rhywun newydd.

Mae'n rhyfedd fel mae dŵr, yr hylif di-liw, di-flas, di-nod hwn mor bwysig a hanfodol i'n bywydau ni. Mae'n un o'r elfennau angenrheidiol i gynnal bywyd. Lle bynnag y bo digon o ddŵr glân, mae bywyd yn ffynnu. Fodd bynnag, lle bynnag bo prinder o ddŵr mae'n anodd ar fywyd. Mae angen dŵr ar bopeth byw.

Cymerwch eiliad – a meddylwch am yr holl ddŵr 'dych chi'n ei ddefnyddio o ddydd i ddydd, o'r eiliad 'dych chi'n diuno yn y bore i'r eiliad 'dych chi'n mynd i'r gwely: gwneud paned, coginio, ymolchi, golchi llestri, golchi dillad, glanhau'r tŷ, golchi'r car ac yn y blaen. Does dim diwedd ar ein hangen a'n defnydd o ddŵr. Mae dŵr yn torri syched, mae'n glanhau, mae'n golchi ac mae'n bywhau.

Na'n wir, mae rhywbeth gwyrthiol am ddŵr. Dyn ni'n dibynnu cymaint arno, ac oherwydd rydym yn byw mewn gwlad lle nad oes prinder dŵr dydyn ni ddim bob tro yn ei werthfawrogi, na chwaith yn sylweddoli ein bod mor ddibynnol arno.

Wrth edrych ar y gwydraid o ddŵr o'n blaenau ni, mae'n anodd credu mor rymus yw dŵr. Mae'n un o'r elfennau mwyaf grymus yn y byd; o rym symudiad tonnau'r môr i afonydd yn gorlifo a pheri llifogydd dinistriol, i allu diferion bach o ddŵr dreulio a hollti craig fawr gadarn. Nid rhywbeth i'w amharchu ydyw, chwaith. Yn gymaint â bod dŵr yn gallu bywiocáu a sicrhau ffyniant bywyd, mae dŵr hefyd yn gallu bod yn beryglus, ac felly mae'n rhaid bod yn ofalus a gwyliadwrus wrth fynd i chwarae neu nofio yn y dŵr.

Rwy'n dechrau fy mhregeth trwy ganolbwyntio ar ddŵr, oherwydd heddiw yw Sul Bedydd Crist, a does dim bedydd heb ddŵr. A dyma ni eto yn gweld dŵr yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol, mewn ffordd symbolaidd. Mae popeth yr ydym yn ei gysylltu â dŵr o ddydd i ddydd; torri syched, ymolchi, golchi a glanhau, a hyd yn oed y grym i gyd yn cael ei gynrychioli yn nŵr y bedydd.

Dŵr, yr elfen hanfodol hon yn y cread sy'n cynnal bywyd – yr elfen ddi-liw, ddi-flas a di-nod hon sy'n chwarae rhan bwysig a symbolaidd yn ein ffydd ni hefyd.

Yn ein darlleniad o lyfr Genesis y bore ma, fe gawsom ddechrau stori'r creu – stori y dechreuadau. Yn y dechreuad er bod popeth yn afluniaidd a gwag, yn dywyllwch ac yn ddi-fywyd, fe welwn ni "ysbryd

Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd". Roedd y dyfroedd yno, dŵr - yr elfen hanfodol i fywyd yno yn y dechreuad. Yn gyntaf fe greodd Duw y goleuni – a bu hwyr a bu bore, y dydd cyntaf. Ar bob un diwrnod newydd fe welwn ni ddechreuad newydd a rhywbeth newydd yn cael ei greu; creadigaeth y nefoedd, creadigaeth y tiroedd a'r moroedd, creadigaeth y planhigion, y sêr a'r planedau, yr haul a'r lloer, y creaduriaid byw, y bwystfilod ac yna fe welwn ni greadigaeth y ddynoliaeth. Roedd pob diwrnod yn ddechreuad newydd. A da i ni, wrth i ni ystyried stori'r creu, i gofio bod pob diwrnod yn cynnig i ni ddechreuad newydd, y cyfle gyda chodiad yr haul i ddechrau eto ac adnewyddu ein perthynas â Duw a'n perthynas ag eraill. Y mae newydd-deb i bob diwrnod newydd. Mae'r gwaith o greu yn parhau. Nid dydd Calan yw'r unig ddiwrnod yn y flwyddyn lle gallwn ni ddiwygio bywyd trwy wneud adduned – y mae pob diwrnod yn cynnig i ni y cyfle i ddechrau rhywbeth newydd, a gollwng gafael ar yr hen.

O'r dyfroedd a fu yn y dechreuad, symudwn ni at ddyfroedd afon yr Iorddonen. Yma eto fe welwn ni ddechreuad newydd gyda Ioan Fedyddiwr a bedydd Iesu. Y prif reswm bod bedydd yn ganolog i'r ffydd Gristionogol yw bod Iesu ei hun wedi cael ei fedyddio yn nŵr afon yr Iorddonen. I ni, y mae bedydd yn wasanaeth sy'n croesawu aelodau newydd i deulu ffydd. Mae'r bedydd i ni yn cynrychioli dechreuad newydd, wedi ein golchi, ein bywiocáu, a'n glanhau trwy gariad Duw yng Nghrist Iesu a'n gwneud yn blant iddo. Symbol gweladwy yw dŵr y bedydd o waith dirgel yr Ysbryd Glân ynom ni.

Mae bedydd Iesu yn yr Iorddonen yn cynrychioli dechreuad newydd iddo yn ei fywyd. Pan gwrrddom ni â Iesu ar lannau'r Iorddonen, a hynny am y tro cyntaf yn efengyl Marc, roedd yn ddyn oddeutu 30 mlwydd oed. Aeth i mewn i afon yr Iorddonen fel Iesu y Saer o Nasareth, ei fywyd hyd at hynny wedi bod yn un o baratoi ei hun i'r gwaith yr oedd Duw wedi ei anfon i'w gyflawni, gwaith a fyddai'n arwain at y groes. Aeth Iesu i mewn i afon yr Iorddonen, i'r dŵr byrlymus i lwyr ymdrochi ei hun, yn arwydd gweladwy iddo ei hun ac i'r byd, o'i barodrwydd a'i ymgysgriad i ymgymryd â'i alwad anochel. Wedi dod allan o'r dŵr, "gwelodd Iesu y nefoedd yn rhwygo'n agored a'r Ysbryd Glân fel colomen yn disgyn arno, a'r llais o'r nefoedd yn ei gadarnhau "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd: ynot yr wyf yn ymhyfrydu". Aeth i mewn i'r Iorddonen yn Iesu y Saer o Nasareth, daeth allan yn Iesu'r athro, Iesu'r iachawr, Iesu'r gwarddwr yn galw ato ei hun ddisgyblion i'w ganlyn. Daeth allan o'r dŵr yn barod i gyflawni'i waith a'i weinidogaeth

gyhoeddus. Roedd ei fedydd yn cynrychioli iddo ddechreuad newydd yn ei fywyd a'i berthynas â Duw, ei dad nefol. Beth oedd y dŵr ond symbol gweladwy a phwerus o droi o'i hen fywyd i dderbyn yn llwyr y bywyd yr oedd Duw wedi'i baratoi ar ei gyfer. Ym medydd Iesu fe welwn ni ddechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus.

Wrth i ni feddwl am ddechreuadau newydd, dechreuad diwrnod newydd, dechreuad blwyddyn newydd, ac wrth i gofio am Fedydd Iesu a dechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus, gofynnaf i chi estyn eich bys i'r gwydraid o ddŵr a'i wlychu. Cofiw'n ein bod ninnau hefyd wedi'n bedyddio yn nŵr y bedydd – yr hylif cyffredin di-liw, di-flas, di-nod, ond yr hylif na allwn fyw hebdo. Cofiw'n i'r dŵr bedydd fod yn symbol o'r Ysbryd Glân yn ein golchi, ein glanhau a'n bywiocáu. Cofiw'n mai trwy ddŵr y bedydd y cawsom ein croesawu i deulu ffydd, a thrwy ein bedydd dechreuodd ein taith Gristionogol. Ac os ydych yn dymuno, mae croeso i chi gyda'ch bys sydd wedi'i wlychu yn y dŵr wneud arwydd o'r groes ar eich talcen, a chofio mai yn Nuw y golchir ymaith y gorffennol, ac mai ynddo ef, a thrwyddo ef, y mae i ni fel ei blant bob amser ddechreuad newydd. Gyda Duw, y mae pob diwrnod yn cynnig dechreuad newydd. Amen.

*Y Credo*

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,  
ffynhonnell pob bod a bywyd,  
yr un yr ydym yn bod er ei fwyn.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Fab,  
a gymerodd ein natur ddynol ni,  
a fu farw drosom ac a atgyfododd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Ysbryd Glân,  
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw  
ac yn amlygu Crist yn y byd.**

**Dyma ffydd yr Eglwys.**

**Dyma ein ffydd ni.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Amen.**

**Addfwynaf Frenin,  
Dynol a dwyfol Un,  
Rhyfeddod nef ei hun  
Yn ddyn ac yn Dduw:  
Tragwyddol Air y nef,  
Crëwr yn gnawd yw ef,  
Yma yn plygu lawr  
A golchi ein traed.**

**O'r fath ddirgelwch,  
Cariad nid oes ei uwch,  
Plygwch, addolwch,  
Cans hwn yw eich Duw,  
Hwn yw eich Duw.**

**Ef sydd yn haeddu'r clod,  
Perffaith, dibechod;  
Dysgodd ufudd-dod  
A marw ar groes:  
Dioddefodd drosom ni,  
Concrodd drwy aberth drud,  
Wrth iddo ddiode'n fud  
Maddeuodd fy mai.**

**Doethineb Duw ei hun,  
Gobaith colledig ddyn,  
Cariad diderfyn  
Ddatguddiwyd yng Nghrist;  
Gwelwch ein Harglwydd cu'n  
Plygu yn dyner i  
Godi ein dyndod ni  
I entrych nef.**

*Graham Kendrick  
Cyf. Arfon Jones  
Caneuon Ffydd 429*

*Y Gweddïau*

Arglwydd, a greodd drefn o anhrefn,  
tyrd â goleuni i'r tywyllwch.  
**Arglwydd, clyw ein gweddi.**

Ble bynnag mae rhyfel a gwrthdaro, lle bo newyn a dioddefaint,  
lle byddwn yn methu gweld sut y gallwn wneud gwahaniaeth,  
tyrd â goleuni i'r tywyllwch.  
**Arglwydd, clyw ein gweddi.**

Yn ein cymunedau ein hunain, i'r rhai sy'n dlawd,  
i'r digartref a'r newynog,  
i'r unig ac i'r carcharor,  
tyrd â goleuni i'r tywyllwch.  
**Arglwydd, clyw ein gweddi.**

I'r rhai y mae eu bywydau yn anodd oherwydd gwaedd ...,  
a'r rhai sy'n chwilio am dangnefedd ac yn methu ei ganfod,  
tyrd â goleuni i'r tywyllwch.  
**Arglwydd, clyw ein gweddi.**

I fywydau'r rhai sy'n galaru ...,  
tyrd â goleuni i'r tywyllwch.  
**Arglwydd, clyw ein gweddi.**

I fywydau'r rhai yr ydym yn byw gyda hwy,  
y rhai yr ydym yn byw drws nesaf iddynt, ac yn  
gweithio gyda hwy,  
ac i ni ein hunain, tyrd â goleuni i'r tywyllwch.  
**Arglwydd, clyw ein gweddi.**  
**Amen.**

Cyd-weddiwn  
**Nefol Dad,**  
**diolchwn i ti am ein cartrefi a'n teuluoedd,**  
**am fwyd a dillad**  
**ac am bob hapusrwydd y gall rhieni a phlant ei**  
**rannu.**  
**Gofynnwn**  
**am i'th gariad ein hamgylchynu,**  
**a'th ofal ein hamddiffyn**  
**ac am gael adnabod dy dangnefedd**  
**bob amser.**  
**Arglwydd yn dy drugaredd**  
**derbyn y gweddïau hyn;**  
**er mwyn Dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn  
hyderus:

**Ein Tad,**  
**yr hwn wyt yn y nefoedd,**  
**sancteiddier dy enw,**  
**deled dy deyrnas,**  
**gwneler dy ewyllys;**  
**megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.**  
**Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol**  
**a maddau i ni ein dyledion,**  
**fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.**  
**Ac nac arwain ni i brofedigaeth;**  
**eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,**  
**a'r gallu, a'r gogoniant,**  
**yn oes oesoedd. Amen.**

**Am heulwen glir ac awel fwyn,**  
**I ti, O Dad, diolchwn;**  
**Am harddwch ir pob maes a llwyn,**  
**I ti, O Dad, diolchwn;**  
**Am flodau tlws a blagur mân,**  
**Am goed y wig a'u lliwiau'n dân,**  
**Am adar bach a'u melys gân,**  
**I ti, O Dad, diolchwn.**

**Am ddail y coed, eu ffrwyth a'u sawr,**  
**I ti, O Dad, diolchwn;**

**Am fachlud haul a gwrid y wawr,**  
**I ti, O Dad, diolchwn;**  
**Am ddoniau beunydd, rhad a rhydd,**  
**Am roddi inni olau ffydd,**  
**Am ofal drosom ni bob dydd,**  
**I ti, O Dad, diolchwn.**

**Am eni Iesu gynt yn dlawd,**  
**I ti, O Dad, diolchwn;**  
**Am Iesu tirion inni'n Frawd,**  
**I ti, O Dad, diolchwn;**  
**Am Iesu, meddyg mawr pob loes,**  
**A'i aberth drosom ar y groes,**  
**Am Un a'n câr hyd ddiwedd oes,**  
**I ti, O Dad, diolchwn.**

*H. J. Hughes*  
*Canu Clod 219*

*Mae hawlfraint Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr*  
*Eglwys yng Nghymru a phob gwasanaeth sydd ynddo*  
*yn eiddo Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984. Neu Y*  
*Cymun Bendigaid 2004*

*Roots a Chaneuon Ffydd.*

*Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984*  
*Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng*  
*Nghymru Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng*  
*Nghymru 2011.*

*Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r Llyfr Y Calendr*  
*Newydd a'r Colectau. Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr*  
*yr Eglwys yng Nghymru 2002*

*Emynau – Caneuon Ffydd, Emynau'r Llan*

## GWEDDIAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddio dros:

- Eglwys Anglicanaidd Aotearoa, Seland Newydd a Polynesia
- Plwyf Gabalfa, y Parchedig Marcus Nelson (Ficer); David Page, Pauline Page, John Hopkins, Dr Michael Glenn, Dr Peter Edbury, Roderick Hillier, Ms Sonal Davada

## GWYLIAU A DARLLENIADAU

**Dydd Llun 11 Ionawr: Rhys Pritchard (1644), Offeiriad a Bardd, William Williams (1791), Diacon a Bardd, Isaac Williams (1865), Offeiriad a Bardd**

*Hebraid 1:1-6; Salm 97; Marc 1:14-20*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Afikpo (Eglwys Nigeria) Ardal Confensiynol Urban Crofters, y Parchedig Will Souter (Offeiriad mewn Gofal)

**Dydd Mawrth 12 Ionawr:**

*Hebraid 2:5-12; Salm 8; Marc 1:21-28*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Gogledd Affrica (Talaith Anglicanaidd Alecsandria

Ardal Confensiynol Teilo (Citizen Church), y Parchedig Ryan Forey (Offeiriad mewn Gofal), Mark Simpson (Offeiriad Cynorthwyol)

**Dydd Mercher 13 Ionawr: Ilar (368) Esgob**

*Hebraid 2:14-diwedd; Salm 105; Marc 1:29-39*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Corn Affrica, (Talaith Anglicanaidd Alecsandria

**Dydd Iau 14 Ionawr: Cyndeyrn (603), Esgob**

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Agra (Eglwys Unedig Gogledd India)

Plwyf Garmon Sant a St Saviour, y Parchedig Phelim O'Hare (Ficer); Michael Cook (Darllenydd Lleyg), Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville, y pennaeth Emma Long, y staff a'r disgyblion

**Dydd Gwener 15 Ionawr:**

*Hebraid 4:1-4, 11; Salm 78; Marc 2:1-12*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Aguata – Eglwys Nigeria Plwyf y Santes Fair, Trebiwt, y Parchedig Dean Atkins (Ficer)

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, y Santes Fair, y pennaeth Nichola Pritchard, y staff a'r disgyblion

**Dydd Sadwrn 16 Ionawr:**

*Hebraid 4:12-diwedd; Salm 19; Marc 2:13-17*

*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Ahoada, Eglwys Nigeria Bywoliaeth St Pawl Grangetown gyda St Dyfrig a St Samson, offeiriad i'w benodi